Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Y.G.G. Pontardawe
# Alltacham Drive
# Pontardawe
# Abertawe
# SA8 4JX

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe wedi'i lleoli yn nhref Pontardawe yng Nghwm Tawe yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot. Mae dalgylch yr ysgol yn un eang. Mae'n gwasanaethu ardal sy'n cynnwys pentrefi Trebannws, Ynysmeudwy, Godre'r Graig, Rhos, Alltwen, Rhyd-y-fro ac ardaloedd o gwmpas Mynydd y Gwair a Mynydd y Gwrhyd.

Mae'r ysgol wedi ei dynodi yn ysgol ddwyieithog sy'n golygu mai prif gyfrwng yr addysgu yw'r Gymraeg a chyflwynir Saesneg pan fydd y disgyblion yn saith oed. Mae tua 52% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith.

Darpara’r ysgol addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 320 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol sydd yn cynnwys dosbarth meithrin rhan amser. Derbynnir y disgyblion i’r ysgol yn amser llawn ar ddechrau Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae gan tua 5.2% o ddisgyblion hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sy'n llawer is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 8% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd hefyd yn llawer is na’r ffigwr cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2007. Mae’r pennaeth wedi bod yn y swydd ers Medi 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe yn 2013-2014 yw £2,668. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot yw £8,492 a'r lleiafswm yw £2,668. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pontardawe yn safle’r 70ain o'r 70 ysgol gynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- safonau ymddygiad ac ymroddiad y disgyblion yn dda iawn;
- yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau cyfoethog sydd yn ysgogi'r dysgu;
- bron pob disgybl yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar gydag ethos croesawgar; a bod
- yr athrawon yn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir a chaiff ei gefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli;
- gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu;
- gweithrediad y cynllun datblygu yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau yn yr ysgol;
- yr holl staff yr ysgol yn cydweithio yn dda i gyflawni gwelliannau; a
- bod gan yr ysgol bartneriaethau llwyddianus sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwelliant pellach ym medrau ysgrifennu disgyblion uwch eu gallu yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Gwella presenoldeb

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i hybu medrau meddwl disgyblion a sicrhau eu bod yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain

A4 Cryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol

A5 Datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad priodol ar gyfer y cynorthwywyr dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gymraeg Pontardawe yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Pan fydd disgyblion yn dechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol y mwyafrif ohonynt islaw'r cyfartaledd. Er hynny, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Ar y cyfan, maent yn cyflawni safonau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae safonau siarad a gwrando da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblion ieuangaf y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n fanwl ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau. Maent yn canu rhigymau a chaneuon yn gywir yn Gymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn siarad yn glir ac yn hyderus ag oedolion a phlant eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn talu sylw mewn gwersi ac yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith. Maent hefyd yn barod iawn i gynnig atebion a rhannu syniadau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau llyfrau ac yn gwneud cynnydd da gyda'u darllen. Maent yn darllen gyda chywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Mae'r disgyblion yn defnyddio strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Maent yn siarad am lyfrau yn hyderus yn ôl eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen ystod eang o destunau yn gywir a gyda mynegiant priodol. Siaradant yn hyderus am storïau ac awduron y maent yn eu mwynhau. Mae'r mwyafrif yn trafod cynnwys eu llyfrau yn ddeallus, yn medru cynnig ymatebion personol i'r hyn a ddarllenant ac yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da gyda'u medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu mewn brawddegau llawn gydag atalnodi priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau a geirfa ddiddorol. Maent yn ysgrifennu yn hyderus mewn amrywiaeth o ffurfiau, gyda llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu at bwrpasau ac mewn arddulliau gwahanol. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion uwch eu gallu yn datblygu'n llawn yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da gan y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae ystod o raglenni cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn effeithiol o ran gwella'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion wedi'u targedu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn gwersi rhifedd. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion adio a thynnu yn gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, a chwblhau pictogram am anifeiliad 'fferm '. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn dda i ddatrys problemau mathemategol syml mewn meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn casglu gwybodaeth am hoff gymeriad hud a lledrith ac yn creu graff bloc o'r wybodaeth a gasglwyd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gwersi mathemateg yn dda, ac mae disgyblion mwy galluog yn cyflawni'n uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer problemau rhif sy'n cynyddu o ran anhawster. Mae dealltwriaeth gadarn gan lawer ohonynt o luosi degolion gyda 10,100 a 1000. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg ar y lefel briodol mewn pynciau eraill, er enghraifft hanes a daearyddiaeth.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol, ac yn y 50% uchaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu a dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Roedd deilliannau ar gyfer mathemateg yn y 25% - 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar gyfer deilliant 6, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol ond roeddent yn yr 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen ym mron i bob dangosydd yn ei gosod yn y 50% isaf.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ac eithro mathemateg ar y deilliant uwch (deilliant 6).

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canlyniadau ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig yn 2013 o gwmpas cyfartaledd y teulu o ysgolion. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig (Lefel 5) yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg ond yn is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau cinio am ddim, mae perfformiad yr ysgol yn amrywiol. Fodd bynnag, mewn dwy o'r tair blynedd ddiwethaf, mae'r perfformiad wedi bod yn y 25% uchaf neu'r 50% uchaf ym mron pob dangosydd.

Dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r merched yn perfformio llawer gwell na'r bechgyn ac eithro yn 2013.

**Lles: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Mae eu hagwedd tuag at weithgarwch corfforol yn yr ysgol ac ar ôl oriau ysgol yn gadarnhaol iawn.

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus ynghylch at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod y gwersi. Maent yn ymateb yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi ei gosod ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran cyfran y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mae presenoldeb hefyd yn is na chanrannau'r teulu a Chymru gyfan. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol, eu cyfranogiad yn y gymuned, a'r profiadau allgyrsiol, mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i fynegi barn am fywyd a gwaith yr ysgol drwy'r cyngor ysgol, grwpiau eco, ysgol iach a masnach deg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus a gallant weithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau neu grwpiau i ymateb yn briodol i dasg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn mynd ati'n gynyddol i gymryd cyfrifoldeb a gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu. Er hynny, nid yw llawer yng ngyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Hefyd, nid ydynt wedi datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n medru llywio'u dysgu eu hunain.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon yn darparu amrediad eang o weithgareddau ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion i ehangu ar eu profiadau addysgu. Caiff y rhain eu cyfoethogi'n effeithiol gan weithgareddau allanol. Mae'r cwricwlwm yn ymateb yn briodol i gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae cynllunio gofalus o fewn y Cyfnod Sylfaen yn canolbwyntio ar fedrau pynciol penodol ynghyd ag adnoddau, medrau allweddol a dulliau o wahaniaethu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd dysgu allanol i gyfoethogi'r gweithgareddau. Mae profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dilyniant a pharhad o'r ddarpariaeth flaenorol ac yn adeiladu'n effeithiol ar gyflawniadau'r disgyblion. Mae'r cynllunio manwl yn cynnig arweinaid a chymorth da i'r disgyblion hynny sydd yn derbyn cymorth drwy ymyrraeth. Mae rhain yn effeithio'n gadarnhaol ar wella eu safonau.

Mae cynllunio athrawon yn nodi'n glir y cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Mae'r ddarpariaeth hon yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau a deilliannau. Mae gan yr ysgol gynllun gweithredu priodol a chlir, cytûn ar gyfer gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yng ngyfnod allweddol 2 yn rhoi digon o gyfleoedd i hybu medrau meddwl ac i ddatblygu annibynniaeth. Mae gor-ddibyniaeth ar greu taflenni gwaith yn cyfyngnu ar gyfleoedd disgyblion i gynllunio, a datblygu eu syniadau eu hunain.

Mae darpariaeth yr iaith Gymraeg a'r cyfleoedd traws gwricwlaidd i ddatblygu medrau llafar a darllen yn y Gymraeg yn elfen gryf drwy'r ysgol ac yn cyfrannu'n sylweddol tuag at safonau. Mae darpariaeth briodol ar gyfer y dimensiwn Cymreig sy'n galluogi'r disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u hetifeddiaeth leol a chenedlaethol.

Drwy hyrwyddo ysgol eco, ysgol iach a masnach deg yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol. Mae agweddau ar gynaliadwyedd wedi eu gwreiddio a'u datblygu yn effeithiol drwy'r ysgol drwy ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr holl athrawon wybodaeth dda am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Maent yn defnyddio strategaethau addysgu amrywiol er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog i'r disgyblion. Mae perthynas ofalgar rhwng yr oedolion a'r disgyblion yn creu ethos gweithgar ac yn cynnig cefnogaeth effeithiol i'r disgyblion. Mae'r athrawon a chynorthwywyr yn modelu patrymau iaith cywir ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau'r disgyblion.

Yn yr ychydig wersi rhagorol, mae holi mentrus a chwestiynu treiddgar yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Yn rhan fwyaf y gwersi lle mae'r addysgu yn dda, mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, maent yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Yn yr ychydig wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae rhediad y wers yn arafu ac nid yw'r gweithgareddau yn ymestyn disgyblion o bob gallu yn llawn.

Mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu sy'n cynnig tystiolaeth glir iddynt o'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion. Maent yn rhoi adborth llafar da a chyfleoedd i ddisgyblion yn ystod gwersi i adolygu eu cynnydd. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae ansawdd yr awgrymiadau ar sut i wella yn anghyson.

Mae cofnodion o gynnydd disgyblion unigol a hefyd grwpiau penodol o ddisgyblion yn glir. Mae athrawon yn defnyddio'r canlyniadau i drefnu llwybrau gwelliant ar gyfer y disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol sydd yn cyfrannu'n dda at wella deilliannau.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion drwy ddarparu profiadau priodol. Mae ymwelwyr hefyd yn cyfrannu i'r ddarpariaeth hon. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol.  Mae hyn yn cynnwys prosbectws a gwefan yr ysgol, cylchlythyrau rheolaidd ac adroddiad blynyddol y llywodraethwyr.  Mae'r ysgol yn cydweithio yn effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i gynnig arweiniad, cymorth a gwybodaeth i ddisgyblion a rhieni, pan fydd angen.

Caiff disgyblion eu hannog i fwyta'n iach.  Trwy weithgareddau corfforol yn ystod y dydd a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r pennaeth yn gweithredu cynlluniau priodol yn barhaus ar gyfer gwella presenoldeb.  Fodd bynnag, nid yw'r camau wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.  Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon a defnyddia'r ysgol y wybodaeth o arsylwadau a phrofion yn ofalus i ddarparu ystod addas o raglenni ymyrraeth ar eu cyfer.  Mae targedau clir a mesuradwy yn y cynlluniau addysg unigol.  Mae athrawon yn cofnodi cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau yn rheolaidd ac yn hysbysu rhieni am ddatblygiad eu plant a'r asiantaethau arbenigol priodol.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, hapus a diogel.  Nodwedd gref yw'r ymdeimlad cartrefol a'r awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion.  Mae gan yr ysgol bolisiau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sydd yn sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sydd yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae'r adeilad yn cynnig digon o le ar gyfer nifer y disgyblion er nad yw pob ardal yn hygyrch i rai gydag anableddau corfforol.  Mae'r ysgol ar safle braf gydag adnoddau allanol effeithiol.  Mae'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n greadigol i hybu'r dysgu yn arbennig o dda.  Caiff yr adeilad a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel ar gyfer chwarae a dysgu.  Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r gofod ac mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus yn adlewyrchu gwaith y disgyblion ac yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol.  Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'n cael ei gefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli. Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiadau swydd clir a chyfrifoldebau penodol ar gyfer datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro cynnydd. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gwneud defnydd da o ddata'r ysgol ac yn adnabod meysydd i'w wella. Mae holl staff yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gyflawni gwelliannau.

Mae'r ysgol yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth yn yr ysgol. Mae datblygiad parhaus llythrennedd, rhifedd a thecholeg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn enghreifftiau da o hyn. Yn ddiweddar, mae'r penderfyniad i brynu gliniaduron ychwanegol wedi gwella mynediad a gallu'r holl ddisgyblion i ddefnyddio TGCh yn rheolaidd yn eu gwersi ar draws yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Maent yn wybodus am ei pherfformiad ac yn cael eu hysbysu'n dda am waith yr ysgol drwy adroddiadau manwl y pennaeth. Mae'r nifer o lywodraethwyr newydd yn datblygu eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn gydwybodol. Fodd bynnag, llai datblygedig yw eu rôl yn monitro'r ddarpariaeth a herio'r ysgol fel cyfaill beirniadol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu ac mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd ar gyfer gwella'r ysgol. Maent yn defnyddio ystod dda o weithgareddau monitro yn bwrpasol, gan gynnwys arsylwi gwersi, archwilio llyfrau disgyblion, a gweithredu rhaglen tair blynedd o fonitro pynciau. Mae'r ysgol hefyd yn casglu barn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn flynyddol.

Mae'r ysgol yn cytuno ar y blaenoriaethau yn y cynllun datblygu'r ysgol yn dilyn archwiliadau gofalus a dadansoddiad o'r wybodaeth sydd ar gael. Mae targedau a gweithredoedd yr ysgol yn canolbwyntio'n dda ar wella deilliannau disgyblion. Mae cynnydd tuag at y targedau yn cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd ac yn effeithiol.

Mae'r cynllun yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu addas, yn nodi staff sy'n gyfrifol am eu cyflawni, graddfeydd amser realistig a meini prawf llwyddiant clir. Mae gweithrediad y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gyda nifer o bartneriaethau. Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn elwa'n ariannol drwy law'r gymdeithas rieni gweithgar yn cyfrannu yn sylweddol at adnoddau megis y buddsoddiad mewn cyfrifiaduron, cyfarpar technoleg gyfoes a sicrhau datblygu'r ardaloedd allanol. Mae hyn yn cyfrannu yn dda at gyfoethogi'r ddarpariaeth ac ymestyn safonau'r disgyblion.

Trefnir nifer o weithgareddau o fewn y gymuned gyda llawer o sefydliadau, yn cynnwys yr awdurdod leol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o gysylltiadau agos gyda chymdeithasau lleol ac unigolion sy'n siarad am eu gwaith, er enghraifft, arlunydd lleol, clybiau chwareuon a gweithgareddau'r Urdd.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r clwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd y mae'n eu bwydo. Mae hyn yn cynnwys creu deunyddiau addysgu, rhannu adnoddau ac yn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r disgyblion sy'n eu paratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae athrawon yn cymedroli a safoni asesiadau ar y cyd ag athrawon o ysgolion eraill y clwstwr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn effeithiol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at gyfoethogi'r ddarpariaeth, sicrhau ansawdd a gwella deilliannau a lles y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ac yn defnyddio staffio ac adnoddau yn effeithiol i gefnogi addysgu a dysgu. Mae gan bob aelod o staff y wybodaeth a'r profiad i gyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus ac yn rheoli ei threfniadau ar gyfer athrawon i gael yr amser digyswllt angenrheidiol er mwyn iddynt gynllunio, paratoi ac asesu. Mae tîm effeithiol o gynorthwywyr sy'n cefnogi staff addysgu yn dda drwy chwarae rôl allweddol wrth gefnogi disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad sefydlog ar gyfer y staff addysgu sy'n diwallu anghenion datblygu yn effeithiol. Nid yw'r gweithdrefnau hyn wedi eu sefydlu ar gyfer y staff cynorthwyol.

Mae'r cymunedau dysgu proffesiynol a sefydlwyd yn yr ysgol ac ar draws y clwstwr yn gwneud cyfraniad da i safonau a darpariaeth yr ysgol. Mae cydlynwyr cwricwlaidd llythrennedd yn y clwstwr wedi gweithio gyda'i gilydd i greu cynllun i wella safon llafaredd y disgyblion. Caiff hyn effaith bositif ar safonau llafaredd ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae un o gymunedau dysgu'r ysgol wedi datblygu ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r gwaith hwn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau ac i ehangu profiadau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro a rheoli cyllideb yr ysgol yn bwrpasol ac mae penderfyniadau gwario'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013, roedd deilliannau disgyblion yn yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg (h.y. ysgolion sydd â chanran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim) ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol, ac yn y 50% uchaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu ar dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Roeddent yn y 25% - 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer datblygiad mathemategol. Ar gyfer y deilliant 6 uwch, roedd yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Roeddent yn y 25% - 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Ar gyfer y deilliant 5 disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol o gwmpas y cyfartaledd yn ei theulu o ysgolion, ac eithrio ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol lle'r oedd yn y safle cyntaf. Ar gyfer y deilliant 6 disgwyliedig, mae canlyniadau yn hanner isaf y teulu ar gyfer datblygiad mathemategol a datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol, ac eithro iaith, llythrennedd a chyfathrebu lle'r oedd tua'r canol.

Yn 2013, roedd deilliannau disgyblion ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2 yn uwch na'r flwyddyn blaenorol. Roedd yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd. Ar gyfer y lefel 5, roedd deilliannau disgyblion yn y 25% uchaf ar gyfer Cymraeg, ac yn y 50% uchaf ar gyfer mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth.

Roedd canlyniadau ar gyfer y lefel 4 ddisgwyliedig, o gwmpas cyfartaledd yn ei theulu. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig (Lefel 5) yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg ond yn is mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn fwy na chyfartaledd Cymru yn y pedwar pwnc.

Dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r merched yn perfformio llawer gwell na'r bechgyn ac eithro canlyniadau 2013.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 91 | 90<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 91 | 85<br>93%<br>92% | 6<br>7%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 91 | 89<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 91 | 90<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 91 | 88<br>97%<br>96% | 3<br>3%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 91 | 90<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 91 | 90<br>99%<br>99% | 1<br>1%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 91 | 89<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 91 | 86<br>95%<br>91% | 5<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 90 | 89<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 91 | 83<br>91%<br>78% | 8<br>9%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 91 | 78<br>86%<br>84% | 13<br>14%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 25 | 15 | 8 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 60% | 32% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 25 | 16 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 64% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 25 | 15 | 8 | 1 | 1 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 60% | 32% | 4% | 4% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 13 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 52% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 25 | 13 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 52% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 24 | 15 | 7 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 25 | 14 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 56% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 24 | 11 | 10 | 2 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 42% | 8% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 25 | 11 | 8 | 2 | 0 | 4 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 32% | 8% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 23 | 12 | 9 | 2 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 39% | 9% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 25 | 17 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 68% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 23 | 7 | 6 | 1 | 0 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 30% | 26% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 7 | 13 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 29% | 54% | 17% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 25 | 13<br>52% | 8<br>32% | 3<br>12% | 1<br>4% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 25 | 8<br>32% | 9<br>36% | 3<br>12% | 1<br>4% | 4 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 25 | 10<br>40% | 13<br>52% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 23 | 9<br>39% | 5<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 9 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 24 | 14<br>58% | 9<br>38% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 25 | 12<br>48% | 7<br>28% | 2<br>8% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Meinir Wynne Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Tîm |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Ceren Lloyd | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceri Emanuel | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.